DATGANIAD SAFBWYNT

# Cynnwys pobl anabl yn y sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol – ystyriaethau'r gweithlu

## Datganiad ar y cyd:

Activity Alliance, Chwaraeon Anabledd Gogledd Iwerddon, Chwaraeon Anabledd Cymru, Chwaraeon Anabledd yr Alban a CIMSPA

Gorffennaf 2026

**CYHOEDDWYD GAN**

Sefydliad Siartredig Rheoli Chwaraeon a Gweithgaredd Corfforol Wedi'i Ymgorffori gan Siarter Frenhinol Rhif Cofrestru Elusen 1144545 www.cimspa.co.uk

© Sefydliad Siar-tredig Rheoli Chwaraeon a Gweithgaredd Corfforol

## Diben

Amlinellu'n glir safbwynt Cynghrair Gweithgaredd, Chwaraeon Anabledd Gogledd Iwerddon, Chwaraeon Anabledd Cymru, Chwaraeon Anabledd yr Alban a CIMSPA ynghylch:

- amlinellu'r safonau priodol i sicrhau bod hyfforddiant y gweithlu chwaraeon a gweithgarwch yn gynhwysol o bobl anabl
- sicrhau bod y sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn lle croesawgar i weithio a gwirfod-doli i bobl anabl.

## Yr angen am ddatganiad safbwynt

Dylai chwaraeon a gweithgarwch corfforol fod yn gynhwysol, yn hygyrch, ac yn fuddiol i bawb. Rhaid i bawb sy'n gweithio yn y sector gael eu hyfforddi'n briodol i gynnwys a chadw pobl anabl fel cyfranog-wyr neu o fewn y gweithlu. Rhaid i'r sector hefyd fod yn lle croesawgar i bobl anabl gymryd rhan, gwei-thio a gwirfoddoli. Mae hyfforddiant o safon a gweithlu amrywiol yn creu amgylcheddau lle gall pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl deimlo eu bod yn perthyn.

Mae pobl anabl ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn anactif na phobl nad ydynt yn anabl. Yn yr un modd, mae plant anabl yn llai egnïol na'u cyfoedion ac yn profi rhwystrau sylweddol i gymryd rhan. Rydym hefyd yn gwybod bod pobl anabl wedi'u tangynrychioli o fewn y gweithlu o 20%.

Mae pobl anabl yn wynebu rhwystrau sylweddol i gymryd rhan, gweithio a gwirfoddoli yn ein sector. Mae hyfforddiant priodol yn rhoi'r hyder, y wybodaeth a'r sgiliau i weithwyr proffesiynol i herio'r rhwystrau hyn, creu amgylcheddau cynhwysol a chefnogi hawliau pobl anabl yn weithredol.

Mae dull cynhwysol a hygyrch yn sicrhau nad yw chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar gyfer pobl nad ydynt yn anabl yn unig. Rhaid i ddarparwyr addysg, cyflogwyr a defnyddwyr wella mynediad at hyfforddiant i bobl anabl a gwreiddio prosesau recriwtio cynhwysol a hygyrch.

- Mae cyflwyno gweithgarwch cynhwysol o safon yn gofyn am wybodaeth am sut i addasu sesiy-nau, cyfathrebu'n effeithiol a chyflwyno dull sy'n canolbwyntio ar y person.
- Mae hyfforddiant priodol yn sicrhau y gall gweithwyr proffesiynol gyflwyno sesiynau gweithgar-wch corfforol diogel, priodol ac effeithiol wedi'u teilwra i anghenion a lefelau sgiliau unigol.

Mae diffyg gweithwyr proffesiynol hyfforddedig a hyderus, a diffyg modelau rôl anabl, yn atal pobl anabl rhag cymryd rhan, gweithio a gwirfoddoli mewn gweithgarwch corfforol drwy gydol eu hoes ac, felly, yn cyfrannu at ynysu cymdeithasol ac anghydraddoldebau iechyd.

Mae'n gyfrifoldeb proffesiynol a moesegol i ddarparwyr fod yn hygyrch ac yn gynhwysol. Mae hyfforddiant o ansawdd a recriwtio cynhwysol yn hanfodol i sicrhau bod darparwyr yn bodloni gofynion cyfreithiol, fel y rhai o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## Yr hyn yr ydym yn disgwyl ei weld

Mae Cynghrair Gweithgareddau, Chwaraeon Anabledd Gogledd Iwerddon, Chwaraeon Anabledd Cymru, Chwaraeon Anabledd yr Alban a CIMSPA wedi ymrwymo i gefnogi rhanddeiliaid y sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol, cyflogwyr, darparwyr addysg a'r gweithlu i dderbyn hyfforddiant priodol mewn gweithio'n gynhwysol a sefydlu arferion hyfforddi, recriwtio a gweithio cynhwysol.

Ers 2018, mae CIMSPA wedi cynnwys dull cynhwysol fel rhan o bob safon broffesiynol galwedigaethol. Mae cwricwlwm yr hyfforddiant wedi'i addasu fel bod pob ymarferydd rheng flaen yn deall sut i addasu sesiynau. Felly, ni ddylai fod unrhyw rwystrau i bobl anabl gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgar-wch corfforol.

### Rydym yn disgwyl gweld bod pawb sy'n cyflwyno chwaraeon a gweithgarwch corfforol:

- yn meddu ar y wybodaeth a'r hyder i gynnwys pobl anabl yn eu sesiynau
- yn meddu ar y wybodaeth a'r hyder i greu amgylcheddau croesawgar a chynhwysol i bobl anabl
- yn cwblhau hyfforddiant sydd wedi'i gymeradwyo i gwmpasu'r cyfan neu ran o safon broffesiynol Gweithio'n Gynhwysol - Gweithio gyda Phobl Anabl
- yn anelu at ddal statws proffesiynol Ymarferydd Uwch o leiaf, gan ddangos eu bod wedi cwblhau hyfforddiant sy'n cyd-fynd â'r safon broffesiynol ar gyfer Gweithio'n Gynhwysol - Gweithio gyda Phobl Anabl.

### Rydym yn disgwyl gweld bod pawb sy'n hyfforddi, cyflogi neu'n defnyddio pobl yn y gweithlu chwarae-on a gweithgarwch corfforol:

- yn meddu ar arferion cynhwysol, rhagweithiol i gefnogi pobl anabl
- yn alinio eu hyfforddiant i gwmpasu'r cyfan neu ran o safon broffesiynol Gweithio'n Gynhwysol - Gweithio gyda Phobl Anabl ac yn ymgorffori hyn yn eu cynigion hyfforddi.

## Sut y byddwn yn gwneud i hyn ddigwydd

- Bydd Activity Alliance, Chwaraeon Anabledd Gogledd Iwerddon, Chwaraeon Anabledd Cymru, Chwaraeon Anabledd yr Alban, a CIMSPA yn cydweithio i greu canllawiau i gyflogwyr a chyrff lly-wodraethu cenedlaethol i amlinellu'n glir yr hyfforddiant priodol ar gyfer gwahanol rolau a chyd-destunau er mwyn sicrhau bod pobl anabl yn cael eu cynnwys.
- Byddwn yn cynyddu'r cyfeiriadau at weithio'n gynhwysol o fewn pob safon broffesiynol galwe-digaeth wrth iddynt gael eu hadolygu.
- Byddwn yn cefnogi ac yn annog cyflogwyr a defnyddwyr i sicrhau bod eu gweithlu yn cymryd yr hyfforddiant priodol ac yn cyflawni cydnabyddiaeth broffesiynol gan CIMSPA gan wirio eu cymwysterau.
- Byddwn yn cefnogi ac yn cyfeirio cyflogwyr a darparwyr addysg at ganllawiau arfer da ar strate-gaethau hyfforddi a recriwtio cynhwysol.
- Byddwn yn cefnogi ac yn annog darparwyr addysg i sicrhau bod eu dysgu a'u datblygiad yn cael eu cymeradwyo i gwmpasu'r cyfan neu ran o'r safon broffesiynol Gweithio'n Gynhwysol - Gwei-thio gyda Phobl Anabl.

## Gwybodaeth bellach

I ddysgu mwy am waith Activity Alliance, Disability Sport Northern Ireland, Scottish Disability Sport, Chwaraeon Anabledd Cymru a CIMSPA ewch i:

- Activity Alliance
- Disability Sport Northern Ireland
- Chwaraeon Anabledd Cymru
- Scottish Disability Sport
- CIMSPA

## Cyfeiriadau ategol.

- Activity Alliance – Annual Disability and Activity Survey, June 2026
- Chwaraeon Cymru – Adroddiad Chwaraeon a Ffyrdd o Fyw Egnïol: Cyflwr y Genedl, 2024-2025.
- Chwaraeon Cymru – Arolwg Chwaraeon Ysgol (parhaus)

Shaping a recognised, valued and inclusive sport and physical activity sector that everyone can be a part of.

**www.cimspa.co.uk**